



CARNHUANAWC?
Fersiwn Mair Elvet Thomas.

WRTH CHWILOTA mewn siop hen bethau yn ddiweddar deuais ar draws portread mewn olew o ŵr mewn gwisg a awgrymai'r cyfnod o gwmpas 1830-40. Hoffais y darlun ac fe'i prynais. Byth er hynny fe arhosodd wyneb y gwrthrych yn y llun yn fy meddwl gan fod gennyf ryw frith gof i mi ei weld o'r blaen. Ond nid oedd gan y siopwr ai gwerthodd i mi y



CARNHUANAWC?
Y darlun ym meddiant yr awdur.

Dirgelwch Carnhuanawc — ai'r un dyn ydyw'r tri?

gan D. L. Davies

syniad lleia' pwy ydoedd.

Wedi hir bendroni mi ddechreuais feddwl fod wyneb y gŵr yn y darlun yn ymdebygu i bryd a gwedd y Parch. Thomas Price, Carnhuanawe (1787-1848). A dyma ymgynghori â chyfrol

Mair Elvet Thomas, *Afiath yng Ngwent* (1978) a llyfryn Saesneg ar fywyd Thomas Price gan Mary Ellis (Aberhonddu, d.d.).

Ar dudalennau 2 a 110 o'r gyfrol gyntaf ac ar yr ail dudalen yn y llall ceir delweddau hysbys o Thomas Price — gan gynnwys, sylwer, cerflun (marmor?) ohono yng



CARNHUANAWC?
Fersiwn Mary Ellis.

Ngholeg Llanymddyfri — ond dim un portread ffurfiol ohono.

Fe'm tarodd ei bod braidd yn rhyfedd nad oes, i bob golwg, bortread ffurfiol hysbys o ŵr a fu mor flaenllaw yn ei ddydd â Thomas Price, a oedd yn gydymaith â phobl fawr ei ddydd megis Arglwyddes Llanofar a Guest. Eto'i gyd mae'r ffaith fod cerflun ohono yn Llanymddyfri yn dyst ei fod yn cael ei ystyried yn deilwng o bortread urddasol a ffurfiol.

Tybed a fedr rhai o'r darllenwyr ddatrys y dirgelwch. Wele'r delweddau o Thomas Price a gyhoeddwyd yn y ddwy gyfrol a nodais, ac wele'r darlun olew, yn ei ffrâm wreiddiol, a brynais i yn y siop hen bethau. Ai lluniau'r un gŵr yw'r tri? Onide, a fedr rhywun awgrymu portread o bwy sydd gen i.

YNG NGHEFN fy meddwl roeddwn wedi clywed am Fistrat, nid y gwynt ond y dyn, ond er holi a chwilio ni ddeuthum eto o hyd i ysgrif yn Gymraeg arno. Cyhoeddwyd dau gofiant i Frédéric Mistral yn Lloegr yn ystod y ganrif hon ond methais gael gafael yn y rhain chwaith. Yna fe ddaeth cyfle i dreulio gwyliau yn Aix-en-Provence a gweld ôl ei ddylanwad yno yn yr arwyddion dwyieithog ar y strydoedd a mynychu gŵyl werin frwdfrydig yn dathlu arwahanrwydd y d'Oc.

O ganfod fy niddordeb ynddo dygodd perchennog bws-mini y wraig a minnau gryn bellter o'i ffordd i'w gartref, sydd bellach yn amgueddfa, yn Maillane ac i'w feddrod ar gwr y pentref. Cawsom gyfle hefyd i ymweld â'r amgueddfa werin ragorol a sefydlwyd ganddo yn Arles.

Daeth cyfle i ddychwel i Aix ymhen dwy flynedd, — a'r tro yma, gan rannu taci gyda theulu o Ffrancwyr, euthum ar ymweliad ag Avignon. Gan nad oedd awydd gen i fynychu Palas y Pabau yr eiltro penderfynais loetran o gwmpas y dref.

Ar drywydd Mistral — y dyn

gan HERBERT HUGHES

Mistral gan awdur Americanaidd o'r enw Charles Alfred Downer.

* * *

CYHOEDDWDYD y gyfrol yn 1901 yn Efrog Newydd ac roedd yr awdur yn athro Llên ac Iaith Ffrengig yng Ngholeg y Ddinas. Ffrwyth ymchwil ar gyfer gradd doethor yw'r gyfrol, a'i gwerth yw fod Downer wedi treulio peth amser yng nghwmni Mistral ac wedi cael croeso cynnes ganddo; ac roedd y gwrthrych yn dal yn fyw pan gyhoeddwyd y gyfrol.

Yng nghyd-destun y datganoli sy'n digwydd ar draws Ewrop heddiw nid yw cyfraniad Mistral yn amherthnasol. Dan ddylanwad Roumanille (a fynnodd ysgrifennu yn d'Oc gan iddo weld dagrau yn llygaid ei fam, na ddeallai Ffrangeg, pan oedd ef a'i ffrindiau yn adrodd barddoniaeth yn yr iaith honno) fe ddewisodd y mudiad a ffurfiwyd gan Mistral a'i

gefnogwyr ddyrchafu'r iaith a siaredid gan filiynau o bobl yn y Midi o fod yn iaith ymddiddanion cyffredin i fod unwaith eto yn iaith lenyddol.

Ffromwyd ar y datblygiad yma i bwysleisio arwahanrwydd y de gan y llywodraeth ganolog ym Mharis gan fod yna duediadau peryglus o chwenychu datganoli gwleidyddol ymhlŷg yn y mudiad. Ond hawliai Mistral fel Daudet fod 'y sawl sy'n dal gafael yn ei iaith, yn dal allwedd ei garchar'.

Yn 1854 fe sefydlwyd y Féligrige gan saith o feirdd, a Mistral yn eu plith, gyda'r prif amcan o gynnal iaith ac arferion Provence.

Ystyr y gair Féligrige yw 'gwŵr doeth', gair a dynnwyd o stori werin leol lle darganfyddir Iesu yn dadlau â Saith Doethur y Gyfraith.

Cyhoeddwyd cylchgrawn llenyddol *Armana Prouvencau* yn 1855 a ymddangosodd yn ddi-fwlch am dros 50 mlynedd.